Adnabod Tatws

Gwers 7: O'r pridd i'r plât

Bydd y plant yn:

- Dysgu am siwrnai taten 'o'r pridd i'r plât'.

Cyflwyniad

Esboniwch i'r plant eich bod am edrych ar yr hyn sy'n digwydd i datws wedi iddyn nhw gael eu cynaeafu.
Gofynnwch i'r plant am eu syniadau ar sut mae'r tatws yn mynd 'o'r pridd i'r plât'.
Dangoswch y **PwerBwynt O'r Pridd i'r Plât** iddyn nhw a thrafodwch beth sy'n digwydd yn ystod pob cam.
Crynhowch y camau allweddol gan ddefnyddio'r sleid olaf.

Tasg

Gosodwch dasg i'r plant, sef creu eu delweddau neu luniau eu hunain o'r camau mae tatws yn mynd trwyddynt wrth fynd 'o'r pridd i'r plât'.

5 – 7 oed

Dangoswch y delweddau cartŵn o'r **PwerBwynt O'r Pridd i'r Plât**.
Trefnwch y plant mewn grwpiau bach i weithio i greu delwedd o un o'r camau.
Gallent wneud hyn drwy ddefnyddio cyfrifiadur neu gyda 'collage' neu baent.
Rhowch yr holl gamau at ei gilydd i greu arddangosfa ar gyfer y stafell ddosbarth.
Gofynnwch i bob grŵp i ysgrifennu disgrifiad o bob un o'r camau.

7 – 11 oed

Gweithiwch ar gyfrifiadur neu gyda defnyddiau celf, tecstilau neu bennau a phapur i greu esboniad, cam wrth gam, o sut mae tatws yn mynd 'o'r pridd i'r plât'.
Neu, gallwch annog y plant i esbonio sut mae llysieuyn arall yn mynd 'o'r pridd i'r plât'.
Gofynnwch i'r plant i ysgrifennu esboniad o bob cam.
neu
Mewn grwpiau bach, gallai'r plant baratoi eu cyflwyniad PwerBwynt eu hunain yn esbonio'r siwrnai o'r pridd i'r plât, a'i gyflwyno i ddosbarth arall yn yr ysgol.
Gellid cyflwyno hwn fel drama neu ddarlleniad.

Crynodeb

Gofynnwch i'r plant i ddangos ac esbonio beth maent wedi'i wneud.

Awgrymiadau...

- Dysgu sut mae bwydydd eraill yn cael eu tyfu a'u cynhyrchu.
- Trefnu i ymweld â fferm i weld anifeiliaid yn cael eu magu, neu ffrwythau neu lysiau'n cael eu tyfu neu'u cynaeafu.